# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

## HAF 2018

## SAFON UWCH
## CYMRAEG: IAITH GYNTAF - UNED 5
## 1000N50-1

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2018. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## CYMRAEG: IAITH GYNTAF - UNED 5

## RHYDDIAITH YR OESOEDD CANOL, YR HENGERDD A'R CYWYDDAU

**(Papur Ysgrifenedig)**

## CYNLLUN MARCIO

**1.**

**(a)** Disgwylir i'r ymgeiswyr allu darllen a deall orgraff a gramadeg y testun gwreiddiol er mwyn ateb yr adran hon.

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu deall cynnwys a rhediad storïol y dyfyniad a chyflwyno dehongliad trefnus, cryno ohono.

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu nodi eu bod wedi deall arwyddocâd y syniadau cyd-destunol sydd yn y dyfyniad, megis y canlynol:



© WJEC CBAC Cyf

| Digwyddiadau'r dyfyniad | Arwyddocâd | Cyd-destun |
|---|---|---|
| Mae brodyr maeth Matholwch yn edliw y sarhad a gawsai yng Nghymru ac yn galw am ddial. | Arwyddocâd sarhad Matholwch yng Nghymru – mae'n bwrw amheuaeth ar ei gryfder a'i ffrwythlonedd oherwydd yr hyn yr oedd y ceffylau'n symbol ohono.<br><br>Pwysigrwydd ceffylau i'r Celtiaid – roedd cerfiadau anferth o geffylau ar fryniau.<br><br>Arwyddocâd y brodyr maeth – roedd teuluoedd brenhinol yn rhoi eu meibion ar faeth yn hytrach na'u magu eu hunain yn yr Oesoedd Canol. Golygai y byddai perthynas agosach rhwng brodyr maeth na brodyr gwaed.<br><br>Roedd Bendigeidfran eisoes wedi talu iawndal anrhydeddus i Matholwch drwy roi iddo geffyl iach am bob un a ddifrodwyd, gwialen arian, plât aur a'r Pair Dadeni. Dyma ailgodi'r gynnen rhwng y ddwy wlad. | Yr hyn a arweiniodd at hyn oedd gweithred fyrbwyll Efnysien yn difrodi ceffylau Matholwch pan ddaeth i wybod am briodas ei hanner chwaer gyda brenin Iwerddon.<br><br>Nid dyma'r tro cyntaf i deyrnas Matholwch wrthryfela – '*dygyuor.*' Roedd y brenin Gwyddelig eisoes wedi wynebu dewis terfynol ynglŷn â Llasar Llaes Gyfnewid a'i deulu. Pan wnaethon nhw eu hunain yn atgas i'r Gwyddelod wynebodd yr un dewis – ei deyrnas neu nhw – fel y mae'n cyfaddef ei hun wrth adrodd yr hanes yn y wledd. |
| Mae'r Gwyddelod yn dial ar Branwen drwy ei gyrru i'r gegin i bobi. Mae'r cigydd yn rhoi bonclust iddi bob dydd pan fo ei ddwylo'n waedlyd wedi iddo fod yn torri cig. | Gwendid Matholwch fel brenin wrth iddo ildio i bwysau ei wŷr i ddial ar Branwen er nad hi oedd ar fai. Nid yw'n cefnogi ei wraig. Hyn yn gwrthgyferbynnu â chymeriad awdurdodol, cryf a theg Bendigeidfran.<br><br>Y dial ar Branwen yn cydfynd â'r drosedd wreiddiol o ran tynnu ei statws oddi arni, ac mae bonclust y cigydd yn adlais o'r difrod gwaedlyd a wnaeth Efnysien i'r ceffylau.<br><br>Yma y diniwed sy'n dioddef. Branwen wedi cydymffurfio â dymuniad ei theulu a'i gwlad i'r briodas wleidyddol er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng y ddwy ynys, wedi cyflawni ei dyletswydd fel brenhines drwy rannu rhoddion a rhoi etifedd i'r brenin, ac eto'n cael ei sarhau.<br><br>Geilw 'Trioedd Ynys Prydain' hon yn '*teir gwith baluawt Ynys Prydein*' (tair bonclust anffodus Ynys Prydain). Pwysleisir yn y Trioedd mai Matholwch ei hun a oedd yn gyfrifol am daro'i wraig, a hynny unwaith yn unig. Mae'r ffaith bod y cigydd yn ei tharo bob dydd yn dangos bod mwy nag un fersiwn o'r chwedl. | Mae sawl enghraifft o sut mae Matholwch yn ildio i bwysau gan ei gynghorwyr e.e. gadael heb geisio caniatâd Bendigeidfran, cynnau tân o gwmpas y tŷ haearn i geisio cael gwared ar deulu Llasar Llaes Gyfnewid, cilio dros afon Llinon a thorri'r bont.<br><br>Arweiniodd y bonclust hwn at ddinistrio Cymru ac Iwerddon yn y pen draw. |
| Perswadia gwŷr Matholwch ef i wahardd unrhyw long na chwch rhag hwylio i Gymru fel na ddaw unrhyw un i wybod am y gosb. | Gwŷr Matholwch sy'n rheoli'r sefyllfa yma, sydd eto'n dangos gwendid brenin Iwerddon.<br><br>Dim ond yn y rhan hon o'r stori y mae'r awdur yn cyfeirio at y wlad fel Cymru; Ynys y Cedyrn yw'r enw a ddefnyddir fel arfer. | Mae'r ffordd mae Matholwch yn cuddio'i anfadwaith yn nodweddiadol o'i lwfrdra. Gwna'r un peth wrth gilio dros afon Llinon yn hytrach na wynebu Bendigeidfran wedi iddo ddod i Iwerddon i amddiffyn Branwen. |



© WJEC CBAC Cyf

| | | |
|---|---|---|
| Parha'r sefyllfa am dair blynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae Branwen yn magu perthynas â drudwen, sy'n cario neges am ei chosb i'w brawd, Bendigeidfran. | Y diniwed yn helpu ei gilydd yma. Branwen yn rhoi nawdd i'r drudwy ac yntau'n cario'r llythyr i Gymru. | Cymeriad goddefol yw Branwen drwy'r chwedl. Dyma'r ychydig adegau pan fo'n weithredol, drwy ysgrifennu'r llythyr i'w hamddiffyn ei hun. Gwna'r un peth wrth fygwth neidio i'r tân i amddiffyn Gwern. |
| Daw'r aderyn o hyd i Bendigeidfran yng Nghaer Saint yn Arfon. | Awgryma'r Athro Sioned Davies ei bod yn bosibl y byddai'r drudwy'n siarad mewn fersiwn cynharach o'r testun gan fod y testun yn dweud iddi '*ddysgu iaith'* i'r aderyn. Mae'n bosibl y teimlid y dylid cael llythyr ffurfiol i'w drosglwyddo i'r brenin wrth i'r gair ysgrifenedig ddod yn bwysicach. Elfen goruwchnaturiol/hudoliaeth.<br><br>Caernarfon yw Caer Saint yn Arfon, a daw'r elfen Seint o'r Lladin Segontium. Parhad ar enw afon Saint neu Seiont. | |
| Pan ddarllena am y gosb ar Branwen mae'n tristáu a threfnu i gasglu ei filwyr ynghyd. | Gwelir cryfder a phenderfynoldeb Bendigeidfran ar ddiwedd y darn wrth iddo weithredu'n syth i anfon y negeswyr i gasglu ei filwyr ynghyd. Nid oes unrhyw oedi nac ymgynghori. Dyma frenin sy'n gwybod beth sydd angen ei wneud ac yn gweithredu'n annibynnol ar ei swyddogion.<br><br>Gwelir cryfder y cyswllt teuluol yma. Does dim amheuaeth nad yw Bendigeidfran am achub cam ei chwaer. | Mae sawl achlysur pan fo Bendigeidfran yn ymgynghori â'i wŷr e.e. ynglŷn â rhoi Branwen yn wraig i Matholwch, ynglŷn â derbyn telerau heddwch Matholwch, ond ef sy'n gwneud y penderfyniadau. Mae hyd yn oed yn rhoi cyfarwyddiadau i'w wŷr ynglŷn â'r hyn y dylent ei wneud ar ôl iddynt dorri ei ben.<br><br>Dengys Bendigeidfran deyrngarwch pellach i amddiffyn Branwen wrth iddo ei hatal rhag ei thaflu ei hun i'r tân ar ôl Gwern ac wrth ei gwarchod tu ôl i'w darian yn yr ymladdfa olaf â'r Gwyddelod.<br><br>Mae Branwen yn chwaer o'r un tad â Bendigeidfran, sef plant Llŷr a Phenarddun, ond mae Bendigeidfran yn arddel y cyswllt teuluol â'i hanner brawd, Efnysien, mab Penarddun ac Euroswydd hefyd, gan nad yw'n bosibl iddo'i ladd fel cosb am ei weithred greulon yn anffurfio ceffylau Matholwch. |



© WJEC CBAC Cyf

**Cwestiwn 1(a)** **[15]**

| | **AA2 – Ymateb i destun** |
|---|---|
| **12 - 15** | • arddangos gwybodaeth drylwyr am y testun<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• enghreifftio'n effeithiol wrth ateb |
| **10 - 11** | • arddangos gwybodaeth fanwl am y testun<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• enghreifftio addas a phwrpasol wrth ateb |
| **8 - 9** | • arddangos gwybodaeth fanwl am y testun ar adegau<br>• arddangos dealltwriaeth dda o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• enghreifftio addas wrth ateb |
| **5 - 7** | • arddangos peth gwybodaeth am y testun<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• cyfeirio ar y testun |
| **3 - 4** | • arddangos gwybodaeth arwynebol am y testun<br>• cyfeirio at rai elfennau penodol o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• cyflwyno rhai syniadau<br>• cyfeirio at y testun yn achlusurol |
| **0 - 2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

c/d cyd-destun

d – dyfyniad

d mewn cylch – dyfyniad / cyfeiriad ysgolheigaidd

arwyddocâd – tanlinellu



© WJEC CBAC Cyf

**(b)**

Dylai'r ymgeiswyr ddefnyddio'r dyfniad yn sylfaen i'w hateb a chyfeirio at rannau perthnasol eraill o'r chwedl.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ddyfynnu'n ddeallus er mwyn cefnogi gosodiad neu safbwynt am thema cynnen yn y chwedl. Gwobrwyir ymgeiswyr sy'n gallu dangos iddynt ddeall dehongliadau ysgolheigion o'r chwedl.

Disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi deall cysyniadau megis:

- Cynnen yn cael ei awgrymu o'r cychwyn drwy bwysleisio natur y ddau frawd, Nysien ac Efnysien a'r disgrifiad ohono fel 'gŵr anageuedus'.
- Bwriad anrhydeddus y briodas wleidyddol i glymu Ynys y Cedyrn ac Iwerddon ynghyd yn troi'n chwerw wrth i Matholwch ddial ar Branwen.
- Sarhad yn sail i sawl cynnen yn y chwedl – Efnysien yn teimlo iddo gael ei anwybyddu (ar ddau achlysur), sarhad Matholwch wrth i Efnysien anffurfio'r ceffylau, a hyn hefyd yn sarhad ar Bendigeidfran.
- Yr Athro Gwyn Thomas yn pwysleisio sut y byddai cynulleidfa'r Oesoedd Canol mor ymwybodol o statws fel y byddai sefyllfa brenhines sy'n cael ei gorfodi i weithio yn y gegin yn gwbl amlwg.
- Y dial yn gweddu i'r sarhad gwreiddiol – tynnu'r statws a'r cryfder oddi ar Branwen (fel y gwnaed i Matholwch) a bonclust waedlyd y cigydd yn adlais o'r difrod i'r ceffylau.
- Y negeswyr yn sarhau Branwen ymhellach yn y ffordd y maent yn ei chyfarch.
- Ceisir dileu'r sarhad drwy dalu iawn ac mae cyswllt rhwng yr iawndal a'r sarhad – Bendigeidfran yn rhoi aur a'r Pair Dadeni er mwyn dileu'r sen ar gryfder a ffrwythlonedd Matholwch.
- Matholwch hefyd yn gorfod talu iawndal am sarhau Branwen a gelyniaethu'r Cymry drwy drosglwyddo'r frenhiniaeth i Gwern.
- Mae sawl cyfle i'r gynnen ddirwyn i ben ond mae balchder ac awydd i ddial yn arwain at ailgodi'r gynnen hyd yn oed ar ôl derbyn iawndal haeddiannol, a hael hyd yn oed.
- Mae cynnen yn codi yn Ynys y Cedyrn hefyd wrth i Caswallon fab Beli ddisodli Caradog fab Brân.
- Yn yr achosion hyn, y diniwed yn aml sy'n dioddef – Matholwch wrth i'w geffylau gael eu difetha, Bendigeidfran drwy iddo fethu ag amddiffyn Matholwch, Branwen, Gwern.
- Yr Athro Sioned Davies yn dweud bod thema cynnen '*yn dangos mor ddinistriol yw'r ddynoliaeth a pha mor ofer yw brwydro. Dylid talu am sarhad, ond talu unwaith ac am byth; mae dial di-ben-draw a thwyll yn difa cymdeithas.'*
- Gwahaniaeth rhwng dau arweinydd – un yn cynnal y gynnen a'r llall yn ceisio cymodi
- Llid Efnysien
- Twyll y Gwyddelod
- Efnysien yn gatalydd i'r holl gynnen



© WJEC CBAC Cyf

**Cwestiwn 1(b)** **[15]**

| | AA2 – Ymateb i destun |
|---|---|
| **12 - 15** | • dadansoddi cymeriadau/themâu yn ddeallus, yn glir a diamwys a dangos eu harwyddocâd<br>• crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio’n effeithiol |
| **10 - 11** | • dadansoddi cymeriadau/themâu yn eithaf deallus a dangos eu harwyddocâd<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio addas a phwrpasol |
| **8 - 9** | • arddangos dealltwriaeth dda o’r cymeriadau/themâu<br>• crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio addas |
| **5 - 7** | • arddangos dealltwriaeth foddhaol o’r cymeriadau/themâu<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio |
| **3 - 4** | • arddangos gwybodaeth am gymeriadau/themâu<br>• cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• rhesymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun<br>• cyflwyno rhai syniadau<br>• dyfynnu/enghreifftio’n achlysurol |
| **0 - 2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

thema – tanlinellu

tic – defnyddio enghreifftiau

d – dyfynnu

d mewn cylch – dyfynnu / cyfeiriad ysgolheigaidd



© WJEC CBAC Cyf

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol i 1(a) ac 1(b). **[15]**

| | **AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig** |
|---|---|
| **12 - 15** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw<br>• saernïo gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen |
| **10 - 11** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw<br>• saernïo gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen |
| **8 - 9** | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| **5 - 7** | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno gwaith<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen |
| **3 - 4** | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac effeithiol<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen |
| **0 - 2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai  nodweddion cadarnhaol yn unig. |

**Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.**

**Asesiad Synoptig**

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu’n synoptig yng nghwestiwn 1 wrth iddynt ddatblygu ymhellach y sgiliau canlynol: e.e. dadansoddi cymeriadaeth / themâu a defnyddio iaith ysgrifenedig. Disgwylir iddynt hefyd wneud cysylltiadau rhwng y testun gosod yn y gyfrol *Gwerthfawrogi’r Chwedlau* â diweddariad o’r chwedl gyfan. **[45]**



© WJEC CBAC Cyf

**Cwestiwn 2**

**Yr Hengerdd a'r Cywyddau**

**(a)**

Disgwylir i ymgeiswyr drafod cefndir y gerdd yng nghyd-destun datblygiad y traddodiad barddol yn yr Oesoedd Canol.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ddeall dylanwad newidiadau cymdeithasol ar y gyfundrefn farddol a chynnwys elfennau megis y canlynol yn eu hatebion:

- Cyfundrefn farddol Cymru cyfnod Dafydd ap Gwilym mewn cyfnod o newid gyda diwedd cyfnod y tywysogion yn 1282. Esgorodd hyn ar yr uchelwyr a swyddogion yr Eglwys yn cymryd mwy o ddiddordeb mewn nawdd ac mae Dafydd ap Gwilym yn cael ei ystyried yn un o arloeswyr mesur y cywydd.
- Dafydd ap Gwilym yn rhan o'r traddodiad ond hefyd yn wahanol iddo gan ei fod yn uchelwr ei hun.
- Testunau cerddi Dafydd ap Gwilym yn wahanol gan ei fod yn uchelwr ei hun ac nad oedd yn dibynnu ar glera am ei fywoliaeth.
- Ymhlith y beirdd amlycaf yn y Gymraeg erioed.
- Traddodiad yn nodi iddo gael ei eni ym Mrogynin yn ardal Aberystwyth tua 1320-1330.
- Mab i Gwilym Gam ab Gwilym ab Einion.
- Aelod o deulu o uchelwyr. Ei ewythr, Llywelyn ap Gwilym yn gwnstabl ar Gastell Newydd Emlyn ac ar ochr brenin Lloegr. Awgrymwyd mai dyma pam na welir unrhyw daeogrwydd yn ei agwedd at y Saeson. Yma mae'n cymryd '*Hicin a Siencin a Siac'* yn ysgafn. Awgryma Dr. Dylan Foster Evans rai cynigion eraill - bod yna feirniadaeth ar rai o uchelwyr Cymru am iddynt 'geisio ymdoddi i fywyd bras, Seisnig y trefi', neu mai mynegiant o rwystredigaeth sydd yma am i'r Cymry gael eu hystyried yn israddol yn eu gwlad eu hunain.
- Mae'n debyg mai Llywelyn ap Gwilym a gyflwynodd Dafydd i farddoni, ef oedd ei athro barddol.
- Llywelyn yn berchen ar sawl llys, ac mae'n bosibl mai yno y daeth Dafydd ap Gwilym i gysylltiad ag elfennau o'r cyfandir a ddylanwadodd ar ei waith.
- Mae'n bosibl bod dylanwad y 'fabliaux' ar y gerdd hon, sef straeon ysgafn, doniol. Yma mae Dafydd yn gwneud hwyl am ei ben ei hun yn ysbryd 'fabliaux' – y sangiadau'n arbennig. Galwodd Anthony Conran ef yn Charlie Chaplin ei gyfnod.
- Y cywydd hwn yn llawn hiwmor a doniolwch, bron fel ffars.
- Parodïo'r foeswers ganoloesol. Mae'n darlunio canlyniadau porthi balchder, un o'r saith pechod marwol.
- Un o brif themâu Dafydd yw serch. Mae'n bosibl bod dylanwad beirdd Ffrengig, y Trwbadwriaid a'r Trwferiaid arno, gyda'u serch cwrtais.
- Canai i ddwy ferch yn arbennig – Morfydd a Dyddgu. Posibl mai Dyddgu bryd tywyll, anghyraeddadwy sydd yma neu mae Tudur Dylan Jones yn awgrymu mai Morfydd allai fod yma gan y nodir mai gwallt golau ac aeliau tywyll oedd ganddi. Syr Ifor Williams yn awgrymu mai teipiau ydynt ond Syr Thomas Parry'n dadlau eu bod yn gymeriadau o gig a gwaed.



© WJEC CBAC Cyf

**Cwestiwn 2 (a)** **[15]**

| | **AA2 – Ymateb i destun** |
|---|---|
| **12-15** | • crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol am gefndir y gerdd, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol |
| **10-11** | • crynhoi ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol |
| **8-9** | • crynhoi'r ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas |
| **5-7** | • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol am gefndir y gerdd a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau |
| **3-4** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun<br>• cyflwyno rhai syniadau wrth gyfeirio at wahanol destunau<br>• dyfynnu'n achlysurol |
| **0 - 2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

tic – sylw perthnasol am y cefndir
d – dyfyniad
d mewn cylch – dyfyniad / cyfeiriad ysgolheigaidd



© WJEC CBAC Cyf

**(b)**

Disgwylir y bydd ymgeiswyr yn:

- cynllunio atebion trefnus a chydlynol
- defnyddio dyfyniadau o'r gerdd yn eu hatebion er mwyn dadansoddi, yn ystyrlon, sut y mae'r bardd yn trosglwyddo'i weledigaeth a thrwy wneud hynny werthfawrogi arddull y dyfyniad
- gallu cyfeirio at rai o'r nodweddion arddull a throadau ymadrodd hyn a manylu ar eu heffeithiolrwydd:

- Gweddi Gristnogol a moliant i Owain yn rhoi cyd-destun i'r gerdd.
- Mesur awdl-gywydd – arwain at awyrgylch soniarus i'r gerdd.
- Prif odl '*-aid'* fel cri gyson wrth i'r bardd ymateb i'r golled.
- Odlau cyrch oherwydd y mesur a'r odlau mewnol yn ychwanegu at sŵn urddasol y gerdd.
- Odl gudd – '*Fflamddwyn*' a '*fwy nogyd'* yn dangos meistrolaeth lwyr y bardd ar ei grefft.
- Cyflythreniad / cytseinedd hefyd yn cyfrannu at sŵn y gerdd e.e. *'eisyllyd ei dad a'i daid', 'Cysgid Lloegr, llydan nifer, / a lleufer yn eu llygaid'* yn cyfleu oerni a braw.
- Chwarae ar sŵn ac ystyron geiriau e.e. *'gwawr / gwaywawr', 'haeach / hyach'.*
- Ailadrodd yn creu undod rhwng dechrau a chlo'r gerdd ac yn enwi'r gwrthrych.
- Cyrch-gymeriad – '*cysgaid / Cysgid'* a'r ystyron gwahanol yn cyfleu cwsg naturiol Owain ond cwsg annaturiol marwolaeth ei elynion.
- Cyflwyno delfryd yr uchelwr perffaith drwy bwysleisio haelioni a dewrder.
- Trosiadau e.e. '*medel galon'.*
- Cyffelybiaethau e.e. '*mal cnud yn dylud defaid'.*
- Gormodiaith e.e. '*nid oedd fwy nogyd cysgaid*'.
- Lleihâd e.e. '*Owain a'i cosbes yn ddrud*', '*nid oedd fas i gywyddaid'.*
- Ansoddeiriau canmoliaethus e.e. '*llathraid,' 'gwiw*'.
- Ansoddair cyfansawdd e.e. *'tromlas'.*
- Gwrthgyferbyniad e.e. *'cyd as cronai mal caled / rhy ranned rhag ei enaid*'.
- Paradocs arwrol e.e. *'amliw seirch'* a *'roddai feirch i eirchiaid'*. Dyma ddwy ochr yr arwr - 'y gwyllt a'r gwâr yn cydfodoli yn yr un dyn' fel y dywed yr Athro Marged Haycock.
- Edmygedd yn amlwg yma.
- Cyfosod *'Rên'* ac *'udd'*, un yn cyfeirio at Arglwydd nefol a'r llall at Owain, yn dangos parch dyrchafol ato.
- Yr Athro Gwyn Thomas – 'Awdl fer, ond cerdd fawr'.
- Cyfeirio at ddehongliadau beirniaid llenyddol pan fo'n berthnasol.



© WJEC CBAC Cyf

**Cwestiwn 2 (b)** **[15]**

| | **AA2 – Ymateb i destun** |
|---|---|
| **12 - 15** | • dadansoddi'n dreiddgar y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol |
| **10 - 11** | • dadansoddi'n effeithiol y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol |
| **8 - 9** | • dadansoddi'n foddhaol y nodweddion a'r technegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas |
| **5 - 7** | • trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau |
| **3 - 4** | • trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull wrth geisio'u dadansoddi<br>• cyflwyno rhai syniadau<br>• dyfynnu'n achlysurol |
| **0 - 2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

nodwedd - tanlinellu
tic – dadansoddi derbyniol / effeithiolrwydd
d – dyfyniad
d mewn cylch – dyfynnu / cyfeiriad ysgolheigaidd



© WJEC CBAC Cyf

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol ar gyfer 2 (a) a 2 (b). **[15]**

| | **AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig** |
|---|---|
| **12 - 15** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw<br>• saernïo gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen |
| **10 - 11** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw<br>• saernïo gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen |
| **8 - 9** | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| **5 - 7** | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno gwaith<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen |
| **3 - 4** | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac effeithiol<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen |
| **0 - 2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig. |

**Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.**

**Asesiad Synoptig**

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu’n synoptig yng nghwestiwn 2 wrth iddynt ddatblygu ymhellach y sgiliau canlynol: gwerthfawrogi arddull a defnyddio iaith ysgrifenedig.

**[45]**



© WJEC CBAC Cyf